DWP

Department for Work and Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Pensiwn y Wladwriaeth gynaliadwy:

pa bryd fydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i 66

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau gan orchymyn Ei Mawrhydi
Tachwedd 2010

Cm 7956W

Pensiwn y Wladwriaeth gynaliadwy:

pa bryd fydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i 66

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Waith a Phensiynau gan orchymyn Ei Mawrhydi
Tachwedd 2010

Cm 7956W

© Hawlfraint y Goron 2010

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan dermau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennu at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn cael ei anfon atom yn:

State Pension age review team
State Pensions Division
Floor 5, Section B
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA
Ffôn: 020 7449 7772
E-bost: pensions.state@dwp.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar-lein yn www.dwp.gov.uk/spa-66-review

ISBN: 9780101795623

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: 2395796 11/10

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% ffibr wedi ei ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau 5

Crynodeb Gweithredol 7

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Mae'r Llywodraeth hon yn credu y dylai Pensiwn y Wladwriaeth fod yn sylfaen gadarn ar gyfer incwm mewn bywyd hwyrach. Dyna pam mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adfer y cyswllt enillion gyda Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol o Ebrill 2011, gyda 'gwarant driphlyg' y bydd Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn codi o'r uchaf o gyfartaledd enillion, prisiau, neu 2.5%.

Mae mwy ohonom nawr, nac erioed, yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac yn byw i hawlio Pensiwn y Wladwriaeth am fwy o amser. Mae cynnydd mewn hirhoedledd yn achos dathliad. Ond roedd yr amserlen wedi'i ddeddfu ar gyfer cynyddiadau mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar ddisgwyliadau hirhoedledd sydd wedi cael eu hadolygu ers hynny. Felly mae'r rheini sy'n nesáu at ymddeoliad nawr yn mynd i fod yn hawlio Pensiwn y Wladwriaeth am fwy o amser nag y disgwyliwyd.

Wrth wynebu'r disgwyliad oedran cynyddol, mae peidio newid yr amserlen i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 yn peryglu cynhaliaeth y system Bensiwn y Wladwriaeth. Fel mae gwelliannau hirhoedledd yn cael eu rhannu rhwng y cenedlaethau, mae'n deg fod y costau yn cael eu rhannu hefyd. Felly, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu dod a'r cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 ymlaen. Bydd y cynnydd yn dechrau dod i rym yn Rhagfyr 2018. Bydd yr oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn 66 o Ebrill 2020.

Dim ond un cam yw hwn i sicrhau fod y Pensiwn y Wladwriaeth yn addas ar gyfer y byd rydym yn byw ynddo. Oherwydd mwy o gynnydd na'r disgwyl mewn hirhoedledd rydym wedi ei weld, ac efallai byddwn yn gweld, bydd y Llywodraeth hon yn parhau i weithredu i gadw'r system yn deg, cynaliadwy, ac yn sylfaen gadarn i bobl mewn ymddeoliad.

Steve Webb AS
Gweinidog Gwleidyddol dros Bensiynau

Crynodeb Gweithredol

1. Mae ein cymdeithas yn byw'n hirach. Mae cyfran llawer uwch o bobl nawr yn byw i 65 nac erioed. Heddiw, gall dyn 65 ddisgwyl byw i 86, a merch 65 i 89, ar gyfartaledd[1].

2. Mae'r ffaith fod pobl yn byw'n hirach yn newyddion da. Fodd bynnag, mae angen i'r system Pensiwn y Wladwriaeth gael ei chynnal a bod yn deg i bob cenhedlaeth. Nid yw'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi cadw'n unol â newidiadau demograffig. Roedd y Ddeddf Pensiynau 2007 yn deddfu i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched i gynyddu i 66 erbyn 2026, i 67 erbyn 2036, ac i 68 erbyn 2046. Ond mae cynyddiad dilynol mewn disgwyliad oes ar gyfartaledd wedi digwydd llawer cynt na'r rhagamcaniadau yr oedd yr amserlen hon yn seiliedig arnynt. Ers hynny mae'r rhagamcaniadau swyddogol ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd 65 yn 2026 wedi cynyddu o 1.5 blwyddyn i ddynion a 1.6 blwyddyn i ferched.

3. Disgwylir i'r adolygiadau hyn mewn rhagamcaniadau disgwyliad oes, dim ond i'r rhai sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eleni olygu costau Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol o £6.5 biliwn dros oes y garfan hon.

4. Wrth wynebu'r her ddemograffig hon, mae'r Llywodraeth wedi adolygu'r amseriad y cynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66. Mewn ymateb i Alwad am Dystiolaeth, mae llawer o bobl wedi cydnabod yr angen i'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu, ac i gynyddu yng nghynt na gynlluniwyd. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn pryderu fod y rheini sy'n cael eu heffeithio yn cael digon o rybudd; fod y gyfran o oedran hŷn sy'n cael ei dreulio mewn iechyd da yn cael ei ystyried; ac efallai gallai pobl gael eu heffeithio yn wahanol.

5. Ar hyn o bryd mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cynyddu o 60 i fod yn gyfartal a dynion yn 65 erbyn Ebrill 2020. I alluogi cynnydd cynharach i 66, bydd yr amserlen cydraddoli yn cael ei addasu o Ebrill 2016 fel bod oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cyrraedd 65 erbyn Tachwedd 2018. Bydd hyn hefyd yn effeithio isafswm oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn, sy'n seiliedig ar, ac yn cynyddu yn unol â, oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched.

1. Prif ragamcaniadau, disgwyliad oes y garfan ar gyfartaledd. Dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn seiliedig ar ONS Cohort Life Tables i'r DU (2008), prif ragamcaniadau.

6. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu dylai'r cynnydd i 66 ddod ymlaen, fel bod oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu o 65 yn Rhagfyr 2018 i 66 erbyn Ebrill 2020 i ddynion a merched. Bydd y cynnydd yn cael ei gyflwyno yn raddol ar gyfradd o dri mis o gynnydd fesul mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth pob pedwar mis.

7. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu bydd cyfanswm o 4.9 miliwn o bobl ym Mhrydain Fawr yn cael newid yn eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth. O'r rhain bydd 4.4 miliwn o ddynion a merched yn cael cynnydd yn eu hoedran Pensiwn y Wladwriaeth o flwyddyn neu lai. Canlyniad hyn fydd £30.4 biliwn o arbedion rhwng 2016/17 a 2025/26, fyddai fel arall angen cael eu talu gan y boblogaeth oedran gweithio.

8. Bydd dod a'r cynnydd ymlaen i 66 yn golygu fod y rheini sy'n elwa o gynnydd hirhoedledd hefyd yn rhannu'r costau. Bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn fwy fforddiadwy, ac yn parhau i ddarparu'r sylfaen gadarn rydym angen ar gyfer sicrwydd mewn bywyd hŷn.

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y TSO (The Stationery Office) ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol
0870 600 5522
Archebwch drwy'r Llinell Seneddol
Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol
020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Archredig eraill

Gall cwsmeriaid hefyd archebu cyhoeddiadau o:

TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol
028 9023 8451
Archebion ffacs: 028 9023 5401

Gallwch weld y cyhoeddiad hwn ar lein yn:
www.dwp.gov.uk/spa-66-review

Am fwy o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â
State Pension age review team
State Pensions Division
Floor 5, Section B
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA
Ffôn: 020 7449 7772
E-bost: pensions.state@dwp.gsi.gov.uk

Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau arall os oes angen.

Adran Gwaith a Phensiynau

3 Tachwedd 2010

www.dwp.gov.uk

ISBN 978-0-10-179562-3

9 780101 795623